# EIN CORFF ANHYGOEL

**Pennill 1**
Wel, mae gennym ni…
Ddwylo, traed a bysedd lu.
Coesau, gliniau, breichiau a pheneliniau
Sodlau, cluniau, ’sgwyddau, gwddw,
A phen mawr hardd sydd ar eu brig nhw.
Wel, mae gennym ni…
Lygaid i weld, clustiau i glywed,
Trwyn i’w arogli, tafod i flasu ag o.
Ceg i siarad a dannedd i gnoi.
Gwefusau i wenu a gwallt i’w steilio.

**Cytgan**
Dyma’n corff ni
‘Bach yn wahanol i ti a fi.
Ifanc a hen, mawr a bach,
Golau a thywyll, rydyn ni i gyd mor brydferth.
Dyma’n corff ni.
Unigol i bawb ohonon ni.
Mae gen ti un, ac mae gen i un.
Bydd yn ystyriol a chlên wrth bob un.

**Pennill 2**
Wel mae ’na…
Lu o rannau na weli di,
Dan y croen y tu mewn i ti a fi.
Mae’r rhannau ’ma’n bwysig – i’n cadw ni’n fyw.
Rhaid gofalu amdanynt i gael aros yn fyw.
Wel, mae gennym ni…
Ysgyfaint i anadlu, stumog i fwyta,
Calon sy’n pwmpio’r holl waed sydd ei angen.
Iau ac arennau i gadw’r gwaed yn lân
Ymennydd mawr gwych i freuddwydio a meddwl.

**Cytgan**

**Pennill 3**
Wel mae ’na…
Ambell beth chi angen gwybod
Y rhannau sy’n breifat, does dim rhaid eu dangos.
Efallai’n wahanol i ti ac i mi.
Ac fe wnân nhw ddatblygu yn dy lasoed di.
Mae gan rai bidyn a phâr o geilliau.
Mae gan eraill fagina a chylchoedd misol.
Bydd rhai’n tyfu barf a hwyrach brest flewog.
Angen bra ar eraill wrth ddatblygu bronnau.

**Cytgan**

Barnardo’s Registered Charity Nos.216250 and SC037605 24765shc24